**Fframwaith ar gyfer Cydweithredu Rhanbarthol**

| **Diben** |
|---|
| Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Grŵp Llywio Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar y dull cyson a gynigiwyd ar gyfer cydweithredu rhanbarthol mewn Llywodraeth Leol. |

## Y cefndir

1. Mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn cytuno bod llywodraeth leol gryf yn hanfodol i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus integredig, o ansawdd, yn effeithiol i gymunedau ledled Cymru. Maent yn cydnabod mai cryfder Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yw'r atebolrwydd democrataidd sy'n adlewyrchu anghenion, dyheadau a diwylliannau Cymru. Maent hefyd yn cytuno bod angen i ni weld sefydliadau effeithiol, llwyddiannus, sy'n addas at y diben ac yn gynrychioliadol o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

2. Yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd 'Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros ein Pobl' yn 2018, sefydlodd Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol y Gweithgor ar Lywodraeth Leol. Ei ddiben yw gweithio mewn partneriaeth, gyda pharch ar y ddwy ochr, i ddatblygu agenda gyffredin ar gyfer diwygio sy'n sicrhau cynaliadwyedd darpariaeth llywodraeth leol a gwasanaethau lleol. Fel rhan o'r rôl, mae'r Gweithgor wedi bod yn adolygu trefniadau gwaith rhanbarthol presennol mewn llywodraeth leol a'r awydd a'r blaenoriaethau ar gyfer gwell cydweithrediad i'r dyfodol.

3. Gwnaeth y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ddatganiad llafar ar 18 Mehefin yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar argymhellion y Gweithgor ar Lywodraeth Leol. Roedd argymhellion y Gweithgor yn ymwneud â nifer o feysydd gan gynnwys gwasanaethau a rennir, uno yn wirfoddol, pwerau a hyblygrwydd, amrywiaeth mewn llywodraeth leol a'r agenda parch cyffredin.

4. Cadarnhaodd y Gweinidog bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid i ddod o hyd i ffyrdd o leihau cymhlethdod o ran cydweithio a gwaith partneriaeth yng Nghymru. Roedd y Gweinidog hefyd yn cydnabod yr angen i ddod â chysondeb a disgyblaeth i ddull Llywodraeth Cymru o ran trefniadau cydweithredu rhanbarthol yn y gwahanol feysydd polisi lle bo'n bosibl.

5. Un o argymhellion allweddol y Gweithgor oedd yr angen am ddulliau a strwythurau mwy cyson i gefnogi gwaith a chydweithredu rhanbarthol. Treulir llawer iawn o amser ac ymdrech yn creu ac ail-greu'r trefniadau gwaith ymarferol ar gyfer cydweithio, er enghraifft, pa awdurdod fydd yn arwain o ran cyllid, a pha awdurdod fydd y cyflogwr. Cytunodd aelodau'r Gweithgor y bydd strwythur sengl ar gyfer trefniadau statudol a gwirfoddol yn cadw atebolrwydd democrataidd lleol ac yn cysoni ac yn symleiddio trefniadau cydweithio.

6. Bydd hyn yn ffurfio rhan o fframwaith ehangach i gefnogi ac annog cydweithredu rhanbarthol. Gellir seilio'r dull yn fras ar ddau brif faes:

- Darparu **dull ar gyfer gweithio a chydweithredu yn gyson yn rhanbarthol** gyda fframwaith clir ar gyfer llywodraethu trefniadau cydweithio ac esbonio disgwyliadau o ran ble y mae gweithio yn rhanbarthol yn bwysig a beth all awdurdodau lleol ei ddisgwyl gan ei gilydd

- Gwella'r **drefn perfformiad a llywodraethu** arfaethedig i gefnogi gwaith rhanbarthol gan awdurdodau lleol (nid yw hyn yn cael ei drafod yn y papur, ond gellir rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf os oes angen)

**Dull ar gyfer Gweithio'n Gyson yn Rhanbarthol**

<u>Strwythurau cyson</u>

7. Mae Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) (y Bil), sydd i'w gyflwyno i'r Cynulliad hwn yn ddiweddarach eleni, yn rhoi'r cyfle i ddarparu cyfrwng sengl sy'n gyson, syml a rhwydd ar gyfer gwaith rhanbarthol sy'n atebol yn ddemocrataidd. Yn ei datganiad llafar ar 18 Mehefin, cadarnhaodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ei bwriad i gyflwyno pwerau yn y Bil i alluogi creu math newydd o gyfrwng cydweithio - y cyfeirir ato ar hyn o bryd fel y Cyd-bwyllgor Statudol.

8. Bydd y Cyd-bwyllgor Statudol yn gorff sydd â phersonoliaeth gyfreithiol ac sydd felly yn gallu cyflogi staff yn uniongyrchol, a chadw a rheoli asedau a chyllid - gan gynnwys, er enghraifft, grantiau rhanbarthol neu gyllid Ewropeaidd os yw'n briodol.

9. Prif ddibenion y Cyd-bwyllgorau Statudol yw:
   - Darparu mecanwaith a model llywodraethu sy’n fwy cyson ar gyfer cydweithredu
   - Darparu fframwaith clir i gefnogi dulliau gwaith rhanbarthol
   - Darparu model a fyddai'n helpu i symleiddio trefniadau rhanbarthol, a lleihau dyblygu a chymhlethdod mewn gwaith rhanbarthol a threfniadau cydweithredu.
   - Darparu model mwy effeithiol ac effeithlon ar gyfer cydweithredu gan leihau'r ymdrech sydd ei hangen i greu ac ail-greu trefniadau cydweithio newydd.
   - Sicrhau atebolrwydd democrataidd, sy'n gryfder gan lywodraeth leol ac sy'n adlewyrchu anghenion, dyheadau a diwylliannau Cymru.

10. Bydd Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn rhoi'r pŵer i greu Cyd-bwyllgor Statudol drwy reoliadau. Byddai rheoliadau o'r fath yn sefydlu meysydd gwasanaeth a swyddogaethau penodol Cyd-bwyllgor Statudol a'r trefniadau manwl ar gyfer llywodraethu, cyllid ayyb. Fel hyn, dylai fod yn bosibl i Gyd-bwyllgor Statudol fod yn gyfrifol am faes gwasanaeth sengl neu gymaint o feysydd gwasanaeth ag sy'n berthnasol yn yr amgylchiadau penodol.

11. Os oes gan Gyd-bwyllgor Statudol swyddogaethau mewn nifer o feysydd gwasanaeth, dylai hefyd fod yn bosibl i'r swyddogaethau gael eu gwneud gan 'is-bwyllgor' os yw'n briodol neu os yw aelodau'r Cyd-bwyllgor Statudol yn dymuno hynny.

12. I roi hyblygrwydd i'r trefniadau, bydd yn bosibl sefydlu Cyd-bwyllgor Statudol mewn dwy ffordd benodol.

13. Y ffordd gyntaf yw ar gais llywodraeth leol, lle bydd awdurdodau lleol yn dymuno cydweithio ar sail buddiannau a rennir a manteision cyffredin. Yn yr achos hwn, bydd yr awdurdodau lleol yn nodi'r meysydd gwasanaeth y maent yn dymuno eu cynnwys fel rhan o'u cais i greu Cyd-bwyllgor Statudol.

14. Cynigir y bydd y dull hwn yn ymdrech ar y cyd gyda Llywodraeth Cymru, gyda'r trefniadau llywodraethu, aelodaeth, pleidleisio ac unrhyw drefniadau cyfansoddiadol eraill o fewn unrhyw reoliadau sy'n sefydlu Cyd-bwyllgor Statudol a'i is-bwyllgorau os yw'n berthnasol, wedi'u cynllunio ar y cyd.

15. Bydd Gweinidogion Cymru hefyd yn gallu dechrau creu'r Cyd-bwyllgorau Statudol mewn nifer o feysydd gwasanaeth <u>cyfyngedig a phenodol</u> os byddai gwneud hynny yn darparu ffordd fwy effeithiol, effeithlon a manteisiol o wneud y swyddogaethau hynny. Y bwriad yw canolbwyntio ar y meysydd hynny lle mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi sefydlu trefniadau rhanbarthol (naill ai yn statudol neu'n wirfoddol) neu os yw'r ddarpariaeth i wneud trefniadau rhanbarthol yn bodoli eisoes. Byddai hyn yn golygu'r posibilrwydd o'u sefydlu mewn meysydd gwasanaeth fel cynllunio, trafnidiaeth, gwella addysg a datblygu economaidd.

<u>Fframwaith Cyson</u>

16. Mewn datganiad llafar ar 18 Mehefin, cadarnhaodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol bod fframwaith yn cael ei ddatblygu i wneud penderfyniadau o ran cydweithio i ddarparu gwell sicrwydd ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan mewn trefniadau rhanbarthol.

17. Bydd CLILC yn cydlynu datblygiad Cod Ymarfer ar y Cyd i'w fabwysiadu gan bob awdurdod lleol. Bydd y Cod yn darparu egwyddorion clir ar gyfer cydweithio rhanbarthol ehangach y tu allan i'r Cyd-bwyllgorau Statudol gan nodi'n glir beth yw'r disgwyliadau o ran ble y mae gwaith rhanbarthol yn bwysig a beth all awdurdodau lleol ei ddisgwyl gan ei gilydd wrth ystyried trefniadau newydd, neu reoli trefniadau presennol a threfniadau ar y cyd.